COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR DDYDD MAWRTH 8 MEDI 2005 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS ST ANDREWS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Mr J E Davies (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mrs S Smith	Mr S Halsall
Mr D H Roberts	Mr D Carr
	Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
	Mr M Jones
	Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaethau Archwilio Mewnol)
	Mrs G Luce

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jones a Mrs Luce i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr Ian Summers (SAC).

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2005.

1.1 Cytunwyd arnynt a'u mabwysiadu yn ddarostyngedig i newidiadau bychain.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddwyd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi mynychu arddangosfa o feddalwedd cyfrifo yn y Cynulliad Cenedlaethol. Nododd yr arddangosfa y byddai'r feddalwedd yma o fudd i'r Comisiwn ac felly bod archeb wedi'i rhoi gyda Merlin.

2.2 Adroddwyd bod cytundeb lefel gwasanaeth wedi'i arwyddo rhwng y Comisiwn a Chyfreithiwr y Trysorlys bellach wedi'i gael mewn ymateb i argymhellion archwilio mewnol 2004/05.

2.3 Adroddwyd fod archebion pwrcasu bellach wedi'u diweddaru i gynnwys dyfynbrisiau oddi wrth gyflenwyr mewn ymateb i argymhellion archwiliad mewnol 2004/05.

2.4 Adroddwyd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi mynd at y Cynulliad eto ynglŷn â'r posibilrwydd o gael llythyr o ddealltwriaeth parthed y tâl am brydlesi offer a gwasanaethau a ddarperir gan Merlin. Ni dderbyniwyd ymateb hyd yma.

3. Llythyr Rheoli ac Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol 2004-05.

3.1 Manylodd Mark Jones ar brif bwyntiau'r Llythyr Rheoli ac esboniodd fod y SAC yn fodlon gyda system gyffredinol y Comisiwn o reoli ac nad oedd twyll na gwariant gwastraffus wedi digwydd yn ystod 2004/05. Adolygwyd adroddiad archwiliad mewnol y Comisiwn ar gyfer 2004/05 ac nid oedd yn cynnwys unrhyw faterion fyddai wedi cael effaith groes ar farn archwiliad y SAC. Nodwyd hefyd fod y Comisiwn wedi cynnal rheolaethau effeithiol er y pwysleisiwyd bod gofyniad parhaus i ddal i arolygu'r gofrestr risg.

3.2 Nodwyd dau eithriad bach i gydymffurfiad â'r Memorandwm Ariannol. Y rhain oedd:

i) paragraff 2.1.3 o'r Memorandwm Ariannol sy'n nodi y dylai'r Comisiwn osgoi dal balans llyfr arian o fwy na £20,000 ac aethpwyd dros y swm hwn ddwywaith yn ystod 2004/05; ac
ii) aeth y Comisiwn dros ei gyllid cario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn o £1,933 ac felly methu cydymffurfio gyda pharagraff 2.1.4.

3.3 Adroddwyd, parthed paragraff 2.1.3, ei bod hi'n anodd i'r Comisiwn i gadw ei balans llyfr arian o dan £20,000 pan fod rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer talu anfonebau mawrion fel y tâl llety chwarterol o £17,000. Nid oedd yn bosibl bob tro i bennu pryd fyddai'r fath anfonebau'n cael eu derbyn a fyddai'n golygu fod cyllid gormodol yn cael ei gadw yn y banc ar ddiwedd y mis. Ystyriodd y Comisiwn y gallai newid y Memorandwm Ariannol i nodi ffigur mwy fel £30,000 ddatrys y broblem yn y dyfodol. Gan fod Datganiad Rheoli'r Comisiwn a'r Memorandwm Ariannol yn cael eu harolygu ar hyn o bryd gan y Cynulliad **cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu â hwy ynglŷn â'r posibilrwydd o newid y ffigur i £30,000.

3.4 O ran y methiant i gydymffurfio gyda pharagraff 2.1.4 adroddwyd fod y cyllid wedi mynd dros y swm cario drosodd awdurdodedig oherwydd ymrwymiadau ar gyfer gwariant a ddaeth i'r amlwg yn unig wedi i'r awdurdod ar gyfer y cario drosodd gael ei gytuno gyda'r adran nawdd,

3.5 Adroddodd Mr Jones fod y Llythyr Rheoli yn ymwneud â chydymffurfiad â Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) am y tro cyntaf. Dangosodd yr archwiliad fod y Comisiwn wedi gwneud cynnydd da wrth roi polisïau a gweithdrefnau DRhG ar waith.

3.6 Manylodd Ychwanegiad 3 o'r Llythyr Rheoli ar argymhellion a gododd o ganfyddiadau'r archwiliad. Y rhain oedd:

i) Taliadau o ran cytundeb Merlin – nodwyd er nad oedd y Comisiwn wedi medru cael contract neu gytundeb lefel gwasanaeth gyda Merlin roedd y SAC yn dal i ystyried fod rhyw fath o gytundeb yn angenrheidiol. Derbyniodd y Comisiwn hyn ac roeddent yn y broses o geisio cael cytundeb ffurfiol gyda'r Cynulliad er mwyn profi pob tâl.
ii) Treth ar Gostau Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynwyr – nodwyd na thalwyd treth ar docynnau teithio awyr y Comisiynwyr a brynwyd ar y rhyngrwyd gan ddefnyddio cerdyn caffael y swyddfa. Roedd hyn oherwydd y ffaith y cyfrifwyd treth ar eitemau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd gan y Comisiynwyr gan

ddefnyddio'r ffurflenni hawlio yn unig am nad fu unrhyw enghraifft flaenorol lle nad oedd y cyfansymiau ar y ffurflenni hawlio yn cynnwys y cyfanswm o bob gwariant teithio a chynhaliaeth. Er mwyn osgoi'r hepgoriad hwn yn y dyfodol cynigiwyd fod pob eitem o wariant teithio a chynhaliaeth drwy ddefnyddio'r cerdyn caffael yn cael ei gofnodi ar yr un daenlen ag eitemau ffurflen hawlio.

iii) Camgymeriadau ar y llyfr arian a mantolen brawf – nodwyd fod cyfrifwyr y Comisiwn wedi gwneud sawl camgymeriad wrth drosglwyddo'r ffigurau gwariant o'r llyfr arian i'r fantolen brawf i'r cyfrifon. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd cysoni'r fantolen brawf yn ôl i'r llyfr arian yn ystod yr archwiliad ac roedd wedi golygu gwaith ychwanegol ar ran yr archwilwyr. Cytunwyd y dylai'r Swyddog Cyllid adolygu'r llyfr arian yn gyson a'i groeswirio yn erbyn y fantolen brawf ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer archwiliadau i'r dyfodol.

3.7 Diolchodd i'r Cadeirydd i Mr Jones am ei adroddiad ar Lythyr Rheoli'r Comisiwn.

4. Cwynion (eitem barhaol).

4.1 Ni fu cwynion ynglŷn â'r Comisiwn ers y Cyfarfod Pwyllgor archwilio diwethaf.

5. Unrhyw Fater Arall.

5.1 Nid oedd unrhyw fater arall.